# CYFARFOD Y CYNGOR 5/12/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd – Trafnidiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Emyr Edwards (Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dafydd Owen Davies, Elin Hywel, Dawn Lynne Jones, Gwynfor Owen, John Pughe a Rob Triggs.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir:-

3 Hydref, 2024;
24 Hydref, 2024 (Cyfarfod Arbennig)

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at nodyn briffio a anfonodd ymlaen llaw at yr aelodau ynglŷn ag eitem 8 – Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2025/26 ac eitem 9 - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2025/26.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach, yn sgil derbyn ymholiadau gan aelodau ynglŷn ag eitem 13D ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig y Cynghorydd John Pughe Roberts, iddo gynghori, oherwydd natur aml-ddimensiwn bresennol sefyllfa'r Dreth Etifeddiaeth, na ellid damcaniaethu ardrawiad unrhyw newid i'r system drethiannol i gynrychioli buddiant ar hyn o bryd.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen - Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau a / neu Godi Premiwm 2025/26 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dewi Jones oherwydd bod aelod o'r teulu yn berchen eiddo gwag hirdymor yn dilyn ei etifeddu.
- Y Cynghorydd Huw Rowlands oherwydd bod gan aelod o'r teulu eiddo sy'n ddarostyngedig i'r Premiwm.
- Y Cynghorydd Jina Gwyrfai oherwydd ei bod yn gydberchennog eiddo gwag.
- Y Cynghorydd Gareth Coj Parry oherwydd bod gan aelod o'r teulu eiddo gwag.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd:-

- Criw Menter Iaith Gwynedd ar eu llwyddiant yng Ngwobrau Mentrau Iaith Cymru yn ddiweddar. Nodwyd iddynt ddod i'r brig a chael gwobr rhagoriaeth am y gwaith a wnaed gyda phrosiect Croeso Cymraeg - Cymdeithas Affrica Gogledd Cymru.
- Y Tîm Ymchwil yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol ar gyrraedd rhestr fer ar draws Prydain yng ngwobrau blynyddol y Sefydliad Ymchwil Ardaloedd Lleol (LARIA) am y gwaith a gyflawnwyd i gyfrannu at y prosiect Llechen Lan am anghenion gofal pobl hŷn i'r dyfodol.
- Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd ar dderbyn Canmoliaeth Uchel Gwobr Prosiect y Flwyddyn Roy Edwards yng Ngwobrau'r ICE Wales Cymru 2024 ar gyfer prosiect Pontydd Bodfel a Bodefail Boduan.
- Teulu Cefn Uchaf, Llanbedr yn dilyn y cyhoeddiad bod eu safle gwersylla, sef Rhayader Nantcol, wedi cael ei ddewis yn faes gwersylla gorau Prydain 2024 gan Campsites.co.uk.
- Yr Arglwydd Harlech wrth i Glyn Cywarch, Talsarnau ennill Gwobr Adfer Tai Hanesyddol 2024, y tŷ cyntaf yng Nghymru i wneud hyn ers sefydlu'r wobr yn 2008.
- Elfyn Evans ar ennill Rali Siapan yr wythnos ddiwethaf a dod yn ail ym Mhencampwriaeth Rali y Byd.
- Tîm Pêl-droed Merched Cymru ar eu llwyddiant yn cyrraedd Euro 2025.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn am ei waith yn arwain y Cyngor ers 2017 ac am fod yn lais cryf a chyson dros gymunedau Cymraeg a gwledig yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Diolchwyd iddo hefyd am ei gyfeillgarwch, ei brofiad a'i arweiniad cadarn dros y blynyddoedd a nodwyd y byddai ganddo'n sicr gyfraniad pellach i'w wneud i fywyd cyhoeddus lleol a chenedlaethol i'r dyfodol.

Yna rhoddwyd gair o ddiolch i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Grŵp Annibynnol, Y Cynghorydd Angela Russell, Arweinydd y Grŵp Llafur / Rhyddfrydol, Y Cynghorydd Stephen Churchman a'r Prif Weithredwr.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams

A yw'r Adran Addysg yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau fod yr holl ysgolion yn cydymffurfio ag argymhellion Adolygiad Cass?

**Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Addysg, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Mae darparu canllawiau cenedlaethol priodol i ysgolion yng Nghymru i gefnogi plant a phobl ifanc traws, anneuaidd a rhywedd-gwestiynol mewn addysg yn un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru. Ers yr ymgynghoriad yn Ebrill 2024 nid oes canllawiau wedi eu cyhoeddi. Pan fyddant yn cael eu cyhoeddi fe wnaiff yr Adran Addysg bopeth sydd yn ddisgwyliedig ohonom i'w hyrwyddo ymysg ein hysgolion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gruffydd Williams**

O ystyried bod Adolygiad Cass allan ers misoedd lawer, pa ganllawiau mae'r Cyngor wedi bod yn ddefnyddio er mwyn diogelu plant rhag pontio cymdeithasol (social transitioning) os nad ydym yn defnyddio argymhellion Adolygiad Cass?

**Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Addysg, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Mae argymhellion Adroddiad Cass yn cyfeirio at argymhellion ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr. Nid ydynt yn cyfeirio at ysgolion o gwbl, ond mae Llywodraeth Cymru yn addo canllawiau i ysgolion yng Nghymru sydd yn cymryd i ystyriaeth Adroddiad Cass a barn y rhanddeiliaid. Pan fydd y canllawiau yn cael eu cyhoeddi gallaf eich sicrhau y bydd Gwynedd yn sicrhau bod y canllawiau yn cael eu dilyn.

### (2) Cwestiwn Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

A fydd Cyngor Gwynedd yn cyflwyno sylwadau cryf i Drafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch colli'r trên hwyr olaf tua'r Gogledd a thua'r De ar reilffordd Arfordir y Cambrian? Does dim bysiau o gwbl yn hwyr yn y nos rhwng Machynlleth a Fairbourne na rhwng Abermaw a Phorthmadog felly mae trafnidiaeth gyhoeddus amgen allan o'r cwestiwn. Bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar weithwyr yn y diwydiant lletygarwch a staff archfarchnadoedd lleol ac yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru o annog llai o deithiau car, er nad oes gan lawer o bobl yn yr ardal hon geir.

**Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Diolch am y cwestiwn. Nid oes gen i lawer i'w ychwanegu i'r ateb ysgrifenedig heblaw i ddweud fy mod yn rhannu eich pryder chi am sefyllfa trafnidiaeth gyhoeddus Gwynedd ac rwy'n croesawu unrhyw gyfle i godi ymwybyddiaeth am hyn. Yn wir rydym ni wedi lleisio barn y Cyngor i'r Llywodraeth yn barod.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Eryl Jones Williams**

Roeddwn mewn cyfarfod dydd Gwener diwethaf o Bwyllgor Rheilffordd Arfordirol y Cambrian lle gwnaed sylw bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau ar y trenau heb gynnal ymgynghoriad anabledd. A fydd Cyngor Gwynedd yn mynd ymlaen i herio Trafnidiaeth Cymru a'r Llywodraeth i wneud yn siŵr y bydd y trên olaf yma yn parhau achos byddai ei cholli yn cael effaith ofnadwy ar bobl sy'n defnyddio'r trên yn yr ardal yma o Wynedd?

**Ateb – Aelod Cabinet Cysgodol dros Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Bydd. Mi wnaf basio eich sylwadau ymlaen i'r Adran.

## 7. ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiwyd ac eiliwyd i benodi'r Cynghorydd Nia Jeffreys yn Arweinydd y Cyngor am dymor y Cyngor.

Nododd aelod fod ganddo ddau gwestiwn ar bwynt o drefn ynglŷn â'r enwebiad. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro y byddai'n cynghori bod y Cyngor yn cwblhau'r broses o wahodd enwebiadau ar gyfer y broses o benodi Arweinydd yn gyntaf.

Cynigiodd yr aelod i benodi'r Cynghorydd Beca Brown yn Arweinydd y Cyngor am dymor y Cyngor. Eiliwyd y cynnig.

Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau pellach.

Gofynnodd yr aelod am eglurder ar y ddau fater o drefn, sef:-

- Er nad yw'n arferol i gael trafodaeth yn y Cyngor ar y mater o benodi Arweinydd, na welid bod yna unrhyw beth yn y Cyfansoddiad sy'n rhwystro'r Cyngor rhag trafod y mater. Oedd modd felly i'r Cyngor gael trafodaeth ar hyn?
- Sawl enwebiad y gall un aelod ei wneud?

Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, nododd y Swyddog Monitro:-

- Mai'r cynnig gerbron oedd i benodi unigolyn yn Arweinydd y Cyngor, ac nid y broses ayb, ac er nad oedd yna unrhyw beth yn y Cyfansoddiad yn atal y Cyngor rhag cynnal trafodaeth, nid oedd hynny'n arferol, a byddai'n rhaid ystyried yn ddwys beth fyddai cyd-destun unrhyw drafodaeth.
- Cyn belled ag y bo trefniadau'r Cyngor yn y cwestiwn, bod yna ddau gynnig priodol gerbron. Nid oedd yn amlwg felly beth oedd arwyddocâd y cwestiwn ynglŷn ag enwebiadau gan fod y Cyngor yn delio â chynigion, waeth beth ydi'r cefndir i'r cynigion hynny.

Nododd yr aelod ymhellach fod 4 aelod o'r Cabinet, sef y Cynghorwyr Beca Brown, Dafydd Meurig, Berwyn Parry Jones ac Elin Walker Jones, wedi ymddiswyddo'n ddiweddar ar fater egwyddorol a bod y cyn-Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, hefyd wedi gwneud y peth anrhydeddus, ac wedi ymddiswyddo. Fodd bynnag, nid oedd yn glir ble roedd gweddill aelodau'r Cabinet presennol, gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd, yn sefyll ar y mater cynhennus o ymddiheuro i ddioddefwyr Foden a chynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r mater. Gan hynny, os nad oedd y Cynghorydd Beca Brown yn fodlon rhoi ei henw ymlaen i fod yn Arweinydd y Cyngor, byddai'n galw ar y Cynghorydd Dafydd Meurig i wneud hynny, ac yn y blaen.

Nododd y Cynghorydd Beca Brown nad oedd yn dymuno i'w henw fynd ymlaen.

Gyda chydsyniad yr eilydd, tynnodd yr aelod ei gynnig yn ôl gan nodi ei fod am gynnig penodi'r Cynghorydd Dafydd Meurig yn Arweinydd y Cyngor am dymor y Cyngor.

Nododd y Cadeirydd na allai aelod gyflwyno mwy nag un cynnig.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Nia Jeffreys yn Arweinydd y Cyngor am dymor y Cyngor.**

Rhoddodd yr Arweinydd anerchiad byr gan bwysleisio ei bod hi, a phawb o'r aelodau, yn cyd-sefyll gyda dioddefwyr Foden. Nododd y dymunai anfon neges at y dioddefwyr hynny yn datgan ei bod yn ymddiheuro o waelod ei chalon am yr hyn a ddigwyddodd iddynt, ac yn addo troi pob carreg i atal sefyllfa o'r fath rhag digwydd eto. Nododd hefyd ei bod, ar ran pob aelod o Grŵp Plaid Cymru, yn galw eto am ymchwiliad cyhoeddus i'r hyn ddigwyddodd.

**8. TRETH CYNGOR – HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM AR AIL-GARTREFI AC EIDDO GWAG HIR-DYMOR 2025-26**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Paul Rowlinson, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar lefel y Premiwm i'w osod ar ail-gartrefi ac eiddo gwag hirdymor ar gyfer 2025/26.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y gwaith ymchwil manwl a gyflawnwyd gan y Tîm Ymchwil a Gwybodaeth er mwyn dadansoddi effaith y Premiwm ar gymunedau Gwynedd yng nghyd-destun nifer o newidiadau eraill, megis y trothwyon ar lety hunan-arlwyo ac effaith posib' Erthygl 4.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Tai at brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai er mwyn amlygu sut mae arian y Premiwm yn cynorthwyo pobl lleol i aros yn eu cymunedau:-

- £68m wedi'i wario yn creu 757 o unedau newydd, gyda £10m o'r swm wedi dod o'r Premiwm.
- Tŷ Gwynedd (tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu gan y Cyngor) – 3 ar y ffordd i Lanberis, 10 yn Coed Mawr, Bangor, 9 yn Morfa Nefyn a 5 yn Llanystumdwy, gyda safleoedd eraill yn Nhywyn, Y Bala a Llanfachreth dan ystyriaeth hefyd.
- Safle newydd ar gyfer 5 unigolyn lleol digartref yn Nolgellau (a lwyddodd i gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr 'Best Supported Housing' Inside Housing).
- Pryniant cyn-adeilad y Llywodraeth ym Mhenrallt, Caernarfon gyda'r gobaith o gartrefu dros 37 o bobl.
- Datblygiadau amrywiol ym Mangor, gydag o leiaf 15 o bobl wedi'u cartrefu.
- Cynllun Lesu Tai - 27 o dai preifat wedi'u lesu i'r Cyngor ar gyfer cartrefu pobl leol, ac 17 arall ar y ffordd.
- Cynllun Prynu Tai – 37 o dai ar draws y sir wedi'u prynu gan y Cyngor i'w rhentu'n raddol i bobl leol – 3 yn Aberdyfi, 2 yn Abersoch, 2 yn Abermaw, 6 yng Nghaernarfon, 1 yn Eden, 1 yn Y Felinheli, 1 ym Mhenrhyndeudraeth, 3 ym Mhorthmadog, 3 ym Mhwllheli a 3 yn Nhywyn, gyda rhagor ar y ffordd.
- Tai cymdeithasol – 346 o dai wedi'u codi a mwy na 100 arall ar y ffordd (gyda Chyngor Gwynedd yn derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru am y cydweithio da gyda'r cymdeithasau tai).
- Grantiau Tai Gwag – 85 o geisiadau wedi'u caniatáu ac 20 arall ar y ffordd.
- Cynllun Prynu Cartref Gwynedd - Tai Teg – 42 o aelwydydd wedi gallu prynu tai drwy gymorth y cynllun gyda 35 arall ar y ffordd, sef mwy na'r hyn a ganiatawyd yn y 5 mlynedd cynt.

Mynegwyd y farn bod gosod Premiwm Treth Cyngor o 150% ynghyd â chyflwyno Erthygl 4 wedi cael effaith negyddol ar dwristiaeth gan arwain at ragor o dai gweigion ar werth yn ein cymunedau. Nodwyd hefyd y deellid bod £17.2m yn sefyll yng nghronfa'r Premiwm ar hyn o bryd, gyda rhagor o arian yn dod i mewn erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf, a holwyd a oedd yr arian yn cael ei wario'n ddigonol gan y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y gronfa wedi cynyddu dros y blynyddoedd gan fod y Cynllun Gweithredu Tai yn gynllun hirdymor.
- Gan bod tai ar werth wedi'u heithrio o dalu'r Premiwm am 12 mis, gallai hynny gymell perchnogion ail-gartrefi i osod eu tai ar y farchnad i weld beth sy'n digwydd.
- Y byddai'r ymchwil yn parhau gan edrych ar y tueddiadau i weld os ydyn nhw'n rhai parhaol, a byddai nifer y tai sy'n dod ar y farchnad a beth sy'n digwydd iddynt yn rhan o'r ymchwil hefyd.

Nodwyd bod yna bryder yn lleol bod y polisi o godi Premiwm ar ail-gartrefi yn gwthio'r brodorion Cymraeg eu hiaith i ollwng gafael ar eu hetifeddiaeth, a hefyd yn troi cartrefi gwyliau, sy'n cael nemor ddim effaith ieithyddol uniongyrchol, yn aelwydydd Saesneg, sy'n cael effaith uniongyrchol ar broffil ieithyddol ardaloedd. Awgrymwyd y dylid gostwng lefel y Premiwm i 50%, fyddai'n marcio tŷ fel ail-dŷ, ond ddim yn gosod baich anghymesur ar y boblogaeth frodorol sy'n dal ail-dŷ am ba bynnag reswm. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Pan osodwyd Premiwm o 50% ar ail-gartrefi, bod tuedd ar y cychwyn i fwy o dai ddychwelyd i fod yn brif gartref nag i'r gwrthwyneb, ond roedd yr ymchwil yn dangos yn glir bod yr effaith hynny wedi bod yn hynod fyr-dymor.
- Wrth godi lefel y Premiwm i 100%, ac yna i 150%, bod yr ymchwil yn dangos bod y duedd i fwy o dai ddychwelyd i fod yn brif gartref yn parhau, a chredid bod hynny'n cyfiawnhau cadw'r lefel ar 150%.
- Bod y gwaith ymchwil yn edrych ar pwy sy'n symud i mewn i'r tai a'u hiaith, ond roedd pobl yn symud am lawer o resymau, ac o bosib' bod yna fwy o symud ymhlith rhai carfanau nag eraill. Roedd y patrwm yn gymhleth ac roedd yr ymchwil yn mynd i'r afael â chwestiynau fel hyn.

Nodwyd bod yna ymdeimlad bellach nad oes croeso i ymwelwyr yng Ngwynedd a bod adeiladwyr, ac ati, sy'n ddibynnol ar fusnes gan berchnogion ail gartrefi, yn bryderus am orfod diswyddo staff. Ar sail hynny, cynigiwyd y gwelliant a ganlyn i ail gymal y penderfyniad a geisir yn yr adroddiad:-

- Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Eiliwyd y gwelliant.

Nodwyd na anghytunid â'r gwelliant, ond y credid y dylid cyfeirio'r mater i'r drefn graffu yn dilyn y cyfarfod hwn er mwyn ystyried:-

- Taflwybr cronfa'r Premiwm, hy, a oes peryg' i'r gronfa dyfu uwchlaw'r hyn y gellir ei wario?
- Oes modd lleihau'r gronfa?
- Oes yna ddulliau eraill o wario'r arian fyddai'n dod â budd i'n cymunedau?
- A yw ein cymunedau yn gallu ymdopi gyda chyflymder y newidiadau?

Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran cyflymder y newidiadau, mai'r cynnig gerbron oedd i beidio newid unrhyw beth eleni ac i gadw'r Premiwm ar yr un lefel â llynedd a'r flwyddyn cynt.
- Nad oedd y cyfan o arian y Premiwm yn mynd i mewn i'r gronfa gan i'r Cyngor benderfynu'n flaenorol i roi £3m ohono yn y gyllideb refeniw bob blwyddyn i ddelio â'r pwysau yn y maes digartrefedd.

- Pe byddai'r Cyngor yn penderfynu ar ryw bwynt i ostwng y Premiwm i 100%, byddai'n rhaid darganfod y £3m yna yn rhywle arall, boed hynny drwy doriadau neu gynyddu'r Dreth Gyngor neu leihau'r Cynllun Gweithredu Tai.
- Bod yr awgrym i gyfeirio'r mater i'r drefn graffu yn dilyn y penderfyniad yn un synhwyrol, a diau y byddai'r Aelod Cabinet yn dymuno cymryd hynny i fyny yn y man.

Nodwyd y cefnogid cadw lefel y Premiwm ar 150% hyd nes y bydd gan bob person ifanc yng Ngwynedd gartref.

Holwyd pa mor sydyn y gellir ymateb i sefyllfa mentrau cydweithredol sy'n haeddu cael eu heithrio o dalu'r Premiwm, megis Menter y Plu, sy'n defnyddio hen gapel fel llety gwyliau. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yn bosib' rhoi amcangyfrif o'r amserlen gan y byddai'n rhaid i'r Adran Gyllid lunio polisi, mewn ymgynghoriad â'r Adran Gyfreithiol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y dymunai wybod mwy am yr achos penodol dan sylw, ac awgrymodd ei fod yn cael sgwrs gyda'r aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant i ganiatáu DIM disgownt a CHODI PREMIWM O 100% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Disgynnodd y gwelliant.

Yn ei sylwadau cloi, atgoffodd yr Aelod Cabinet yr aelodau fod pleidleisio yn erbyn y cynnig gwreiddiol yn golygu:-

- Peidio codi dim Premiwm o gwbl sy'n golygu na fyddai yna unrhyw arian ar gael ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai na digartrefedd.
- Rhoi disgownt i bobl sydd ag ail-gartref a thai gwag a thrwy hynny greu twll enfawr yng nghyllid y Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol, sef bod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2025/26, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2025/26. Hynny yw, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26:-**

- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;**
- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Bod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## 9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2025-26

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Paul Rowlinson, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Gyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2025.

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2025 yn parhau fel ag yr oedd yn ystod 2024/25. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**
**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2. Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2025/26, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 10. ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a restrwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac i dderbyn y wybodaeth am newidiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad yn Atodiadau 2 a 3 yn sgil datblygiadau deddfwriaethol neu adolygiad o drefniadau, yn arbennig felly yn y maes trwyddedu.

**PENDERFYNWYD**

**1. Bod y Cyngor yn mabwysiadau'r newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
**2. Bod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth am newidiadau dirprwyedig i'r Cyfansoddiad yn Atodiadau 2 a 3 i'r adroddiad.**

## 11. ADOLYGIAD O DDOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol, y Cynghorydd Menna Trenholme, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo canlyniadau'r adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio yn etholaethau seneddol Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy (i'r graddau y maent o fewn Gwynedd) o fewn Gwynedd, yn dilyn cyfnod ymgynghori.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo canlyniadau'r adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio yn etholaethau seneddol Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy (i'r graddau y maent o fewn Gwynedd) o fewn Gwynedd, yn dilyn cyfnod ymgynghori.**

## 12. CAIS I NEWID ENW CYMUNED LLANAELHAEARN

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol, y Cynghorydd Menna Trenholme, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo cais Cyngor Cymuned Llanaelhaearn i newid enw'r Gymuned o Llanaelhaearn i Trefor a Llanaelhaearn yn unol ag Adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo newid enw Cymuned Llanaelhaearn i Trefor a Llanaelhaearn yn unol ag adran 76 Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

## 13. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Er mwyn digoni'r angen am dai lleol, bod y Cyngor yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddf er mwyn dod â'r arfer o gyfnewid tai cymdeithasol i ben ar unwaith, oni bai bod y tŷ yn cael ei gyfnewid o fewn yr awdurdod lleol, neu yn agos iawn at ffin y sir.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Bod tŷ mewn pentref gwledig yn ei ward wedi'i gyfnewid ddwywaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf i bobl o'r tu allan i Gymru, ac wedi'i hysbysebu eto ar-lein yr wythnos hon.
- Bod Adra yn adrodd bod 50 o'u tai wedi'u cyfnewid yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda 4 yn unig wedi'u cyfnewid i bobl o'r tu allan i Wynedd. Roedd y cymdeithasau tai eraill yn adrodd bod eu ffigurau hwythau'n isel hefyd. Fodd bynnag, os oedd hyn yn batrwm cenedlaethol, golygai bod 88 o dai wedi'u trosglwyddo yn y flwyddyn ddiwethaf i denantiaid sydd ddim ar unrhyw restr aros am dŷ yng Nghymru.
- Bod polisi gosod Cyngor Gwynedd yn cael ei danseilio bob tro mae tŷ yn cael ei gyfnewid tra bod pobl leol yn parhau ar y rhestr aros am gyfnodau hir heb lwyddo i sicrhau cartref.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Awgrymwyd bod y gallu i gyfnewid tai cymdeithasol yn fodd o ddatrys problemau neu wella sefyllfa unigolion neu deuluoedd, ac yn galluogi i bobl aros yn eu cymunedau. Fodd bynnag, roedd angen gwell rheolaeth ar hyn. Nodwyd bod y cynigydd, wrth gyflwyno ei chynnig, wedi datgan y dylid dod â'r arfer o gyfnewid tai cymdeithasol i ben oni bai bod y tŷ yn cael ei gyfnewid o fewn yr awdurdod lleol, neu yn agos iawn at ffin y sir. Fodd bynnag, gan nad oedd y cynnig gwreiddiol fel mae'n ymddangos ar raglen y cyfarfod hwn yn cynnwys y geiriau '*neu yn agos iawn at ffin y sir*', y dymunid cynnig gwelliant ffurfiol i'r perwyl hynny. Mynegwyd pryder ynglŷn â chyfyngu cyfnewidiadau i Wynedd yn unig gan fod gan rai cymunedau sy'n agos at ffin y sir gysylltiad clos â chymunedau mewn sir gyfagos.

Nododd y Swyddog Monitro, gan fod y cynigydd wedi adrodd y geiriau '*neu yn agos iawn at ffin y sir*', y gallai, gyda chydsyniad y cyfarfod, addasu'r cynnig heb fynd ymlaen i gael gwelliant ffurfiol.

Cytunodd y cynigydd i addasu ei chynnig a chafwyd cydsyniad y cyfarfod i hynny.

Holwyd beth oedd '*yn agos iawn'* yn ei olygu. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro nad oedd yna derm cyfreithiol am '*agos'* ac na fyddai'n briodol i'r Cyngor geisio llunio diffiniad manwl o hynny. Roedd y cynnig yn gofyn i'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda chais i newid y ddeddf a dyna'r lle i gael y drafodaeth fanwl honno.

Awgrymwyd bod y cynnig yn amherthnasol bron gan fod y niferoedd o gyfnewidiadau dan sylw yn fychan iawn a bod amgylchiadau pawb yn wahanol. Hefyd, roedd gan y cymdeithasau tai weithdrefnau tynn o ran caniatáu cyfnewidiadau, gan gynnwys gwiriadau ynglŷn â dyledion, ayb. Nodwyd hefyd na ddeellid pam ein bod yn ceisio cyfyngu ar symudiadau pobl os oes ganddynt reswm da dros symud i ran arall o'r wlad.

Nodwyd nad oedd rhai ardaloedd yn boblogaidd, a phe na chaniateid cyfnewid tai, gallem gael ein gadael gyda tai gweigion. Nodwyd y gallai rhai pobl fod yn dymuno symud o'r ardal oherwydd ymrwymiadau teuluol neu gyfleoedd gwaith, a mater i'r cymdeithasau tai oedd penderfynu a ddylid caniatáu iddynt gyfnewid eu tai ai peidio. Awgrymwyd hefyd y dylai'r cynnig fod wedi'i anelu at y cymdeithasau tai, yn hytrach na'r Llywodraeth, ac y dylai'r Cyngor fod yn cynnal trafodaeth gyda'r cymdeithasau tai er mwyn ceisio darganfod datrysiad i hyn. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr fod y sgyrsiau hyn yn digwydd yn rheolaidd gyda'r cymdeithasau tai drwy'r Bartneriaeth Tai, ond yn yr achos penodol hwn, bod hyn yn hawl deddfwriaethol sydd yn gyfangwbl y tu hwnt i rymoedd y cymdeithasau tai.

Nodwyd bod y cynnig yn ymwneud â mater ymylol, ac awgrymwyd bod yna faterion mwy canolog o ran tai cymdeithasol, e.e. cymdeithasau tai yn apelio yn erbyn penderfyniadau i wrthod caniatâd cynllunio i godi stadau mewn llefydd fel Botwnnog. Er hynny, nodwyd y dylid cefnogi'r cynnig gan dderbyn bod hyn yn un agwedd ar broblem llawer mwy.

Nodwyd na chredid bod y Cyngor yn monitro'n effeithiol yr effaith ieithyddol mae symudiadau yn neiliadaeth tai cymdeithasol yn ei gael, a'i bod yn anorfod bod y cyfnewidiadau tai yn mynd i gael effaith ieithyddol niweidiol.

Nodwyd bod angen rheoli'r system gyfnewid, a bod y cymdeithasau tai eu hunain yn gofyn am fwy o reolaeth hefyd. Awgrymwyd y dylai Opsiynau Tai Cymdeithasol Gwynedd, Adran Tai'r Cyngor a'r cymdeithasau tai lobïo'r Llywodraeth i newid y rheolau fel nad yw pobl leol yn dioddef ar chwant pobl sydd eisiau symud yma ac acw. Nodwyd y gellid rhoi ystyriaeth lawn i geisiadau teilwng i gyfnewid, gan sicrhau nad ydym yn colli siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, roedd y drefn yn ad-hoc ar hyn o bryd ac yn tanseilio'r ymdrechion caled i gael tai i deuluoedd Gwynedd.

Awgrymwyd y dylai'r cynghorwyr lleol gael mewnbwn i bwy sy'n symud i mewn i dai cymdeithasol yn eu hardal.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd:-

- Nad oedd gan y cymdeithasau tai na swyddogion tai'r Cyngor unrhyw reolaeth dros y sefyllfa o gwbl.
- Yn wahanol i'r trefi, bod nifer isel o gyfnewidiadau tai yn cael ardrawiad mawr mewn ardaloedd gwledig.
- Y dylai holl dai cymdeithasol y sir fod ar gyfer pobl sydd ar y rhestr tai yng Ngwynedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Er mwyn digoni'r angen am dai lleol, bod y Cyngor yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddf er mwyn dod â'r arfer o gyfnewid tai cymdeithasol i ben ar unwaith, oni bai bod y tŷ yn cael ei gyfnewid o fewn yr awdurdod lleol, neu yn agos iawn at ffin y sir.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Huw Rowlands o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

- Gofynna Cyngor Gwynedd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddyrannu cyfran deg o'r gwariant ar reilffordd HS2 yn Lloegr i Gymru.
- Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru barhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau hyn.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod y cynnig yn ymwneud â'r annhegwch di-ddadl, sef nad yw Cymru yn cael unrhyw arian canlyniadol yn dilyn adeiladu rheilffordd HS2, a bod Cymru unwaith eto yn cael ei thrin yn is-raddol i'r Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mai dadl Llywodraeth San Steffan yw bod Cymru'n cael budd o HS2, er nad yw'r llinell bellach yn mynd i Crewe hyd yn oed. Mae'r ddadl honno yn seiliedig ar y ffaith nad yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi ei ddatganoli i Gymru, sy'n ddadl afresymol, a chredir bod y sefyllfa yn hollol anghyfiawn, ac yn sefyllfa na fyddai'r Alban na Gogledd Iwerddon yn ei derbyn.

- Ein bod yn cael ein sathru a'n sarhau gan Lywodraeth San Steffan a'n trin yn israddol i rannau eraill y Deyrnas Gyfunol, nid yn unig yng nghyd-destun HS2, ond hefyd oherwydd diffyg cyllido cyffredinol a diffyg datganoli pwerau penodol i Gymru.

Cefnogwyd y cynnig a nodwyd y gallai'r £4bn o gyllid rheilffyrdd sy'n ddyledus i Gymru fod wedi'i fuddsoddi ar gyfer dechrau ail-adeiladu rhai o'n rhwydweithiau, megis rheilffordd Afon Wen.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

- **Gofynna Cyngor Gwynedd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddyrannu cyfran deg o'r gwariant ar reilffordd HS2 yn Lloegr i Gymru.**
- **Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru barhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau hyn.**

(C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd June Jones o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Yn sgil y ddamwain erchyll fu ar lôn yr A4085 ger pentref Garreg, Llanfrothen mis Tachwedd 2023 lle bu i bedwar o hogiau ifanc golli eu bywydau, bod Cyngor Gwynedd yn gyrru at Adran Trafnidiaeth Llywodraeth San Steffan yn gofyn iddynt edrych ar ddiweddaru'r rheolau i gael trwydded graddedig (graduated driving license) lle na all gyrwyr ifanc gario eu cyfoedion ifanc eraill heb bod iddynt wedi cael chwe mis o brofiad gyrru ar ôl pasio eu prawf.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi bod arolwg a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn nodi bod yna fwy o ddamweiniau ffordd yn digwydd yn ardaloedd gwledig Cymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

Cefnogwyd y cynnig a nodwyd bod cyflwyno trwydded graddedig ar gyfer gyrru beiciau modur 30 mlynedd yn ôl wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ystadegau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Yn sgil y ddamwain erchyll fu ar lôn yr A4085 ger pentref Garreg, Llanfrothen mis Tachwedd 2023 lle bu i bedwar o hogiau ifanc golli eu bywydau, bod Cyngor Gwynedd yn gyrru at Adran Trafnidiaeth Llywodraeth San Steffan yn gofyn iddynt edrych ar ddiweddaru'r rheolau i gael trwydded graddedig (graduated driving license) lle na all gyrwyr ifanc gario eu cyfoedion ifanc eraill heb bod iddynt wedi cael chwe mis o brofiad gyrru ar ôl pasio eu prawf.**

(D) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd John Pughe Roberts o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ail ystyried eu cefnogaeth i Blaid Lafur San Steffan a bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ail-sefydlu y Rhyddhad Eiddo Amaethyddol.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Bod newidiadau gan Lywodraeth Llafur San Steffan ar dreth etifeddiaeth amaethyddol wedi gweddnewid Cymorth Eiddo Amaethyddol (APR) fel bod pob fferm sydd werth dros filiwn o bunnoedd bellach yn gorfod talu treth etifeddiaeth.
- Gyda'r diwydiant dan bwysau difrifol a rheolwyr cronfeydd rhagfantoli yn chwilio am wrthbwyso carbon drwy system o ail-wylltio a phlannu coed ac felly godi gwerth tir

amaethyddol, bod 100 acer o dir yn cyrraedd y trothwy neu ffermdy a bwthyn hunan ddarparu yn werth dros filiwn o bunnoedd.

- Y golygai hyn y bydd y mwyafrif o ffermydd Gwynedd a Chymru yn gorfod talu symiau anferthol o dreth gyda rhai yn mynd yn fethdalwyr neu orfod gwerthu tir a fyddai'n golygu bod y ffermydd yn methu parhau i amaethu.

Cefnogwyd y cynnig ar sail pryder ynglŷn â dyfodol ffermio yng Nghymru a phryder y bydd cwmnïau mawr yn dod at ei gilydd ac yn prynu'r ffermydd hyn.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod y Cyngor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ail ystyried eu cefnogaeth i Blaid Lafur San Steffan a bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ail-sefydlu'r Rhyddhad Eiddo Amaethyddol.**

(E) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mhrifysgol Bangor ac yn ysgrifennu at ein cynrychiolwyr etholedig yn y Senedd i lobïo Llywodraeth Cymru i ystyried yr achos economaidd ac iechyd cyhoeddus dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn seiliedig ar y canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd yn yr adroddiad Llenwi'r Bwlch.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Bod Sian Gwenllian, AS, wedi comisiynu adroddiad "Llenwi'r Bwlch: Deintyddiaeth yn Arfon" er mwyn darganfod beth yn union yw sefyllfa gwasanaethau deintyddol yr ardal, gan adnabod yr heriau a chynnig datrysiadau.
- Bod prinder sylweddol o wasanaethau deintyddol GIG a phob math o wasanaethau deintyddol yng Ngwynedd, ac yng Ngogledd Cymru, sy'n golygu bod iechyd dannedd plant ac oedolion Gwynedd yn wael. Roedd achos cryf felly dros sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.
- Bod Sian Gwenllian wedi bod yn ymgyrchu i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mhrifysgol Bangor a bod Llywodraeth Cymru yn cytuno fod angen hyfforddi rhagor o ddeintyddion yng Nghymru.
- Y gallai ysgol ddeintyddol newydd ym Mangor chwarae rôl allweddol wrth hyfforddi mwy o ddeintyddion yn lleol, gan gynnig gwell siawns o gadw'r gweithlu deintyddol yn y rhanbarth a darparu gwasanaethau hanfodol yn lleol.
- Y byddai sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn darparu swyddi newydd o safon a denu buddsoddiad i'r economi lleol, gan gefnogi Bangor fel canolfan ragoriaeth ym maes iechyd, ochr yn ochr â'r ysgol feddygol newydd. Yn ogystal, gallai'r ysgol ddeintyddol ychwanegu at y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol Cymraeg a dwyieithog, gan wella mynediad at ofal iechyd i gymunedau lleol sy'n siarad Cymraeg.
- Y byddai sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor yn rhoi cyfleoedd newydd i'n pobl ifanc hyfforddi a chael swyddi da yn lleol, ac yn darparu staff i wasanaethau deintyddol, cynyddu'r gweithlu a'r gwasanaethau a thrwy hynny wella iechyd dannedd ein plant a'n hoedolion. Byddai hyn, yn ei dro, yn rhoi llai o bwysau ar wasanaethau brys ein hysbytai, ac yn gwella iechyd cyffredinol y cyhoedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mhrifysgol Bangor ac yn ysgrifennu at ein cynrychiolwyr etholedig yn y Senedd i lobïo Llywodraeth Cymru i ystyried yr achos economaidd a iechyd cyhoeddus dros sefydlu**

**ysgol ddeintyddol ym Mangor yn seiliedig ar y canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd yn yr adroddiad Llenwi'r Bwlch.**

(F) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Rhys Tudur o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

O ystyried
- Bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymgynghoriad ar amrywio Treth Trafodion Tir
- Y byddai amrywio'r dreth yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor daclo'r gyfradd y prynir ail dai yn effeithiol
- Y byddai amrywio'r dreth yn agor y drws i'r Cyngor hwn bwyso ar y Llywodraeth i roi ei siâr theg o'r refeniw sy'n deillio o dreth tir

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o rôl i Wynedd fedru penderfynu ar amrywiaethau ar gyfer Treth Trafodion Tir.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Mai'r Dreth Trafodion Tir yw'r arf mwyaf grymus sydd gennym i daclo'r broblem tai haf a rheoli gwerthiannau ail dai yn effeithiol dros amser, a hynny heb esgor ar sgil-effeithiau cynddrwg ag a geir gyda theclynnau trethiannol eraill, megis y Premiwm Treth Cyngor.
- Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymarfer mwy o bwerau i amrywio'r Dreth Trafodion Tir fel ei fod yn uwch fyth ar ail dai, gan hefyd ddatganoli rhywfaint o rymoedd i'r cynghorau amrywio'r Dreth Trafodion Tir ar ail dai o fewn eu siroedd.
- Bod y cynnig yn gofyn i'r Llywodraeth roi mwy o rôl i Gyngor Gwynedd fedru penderfynu ar amrywiaethau ar gyfer Treth Trafodion Tir ar ail dai, gan mai yng Ngwynedd mae'r nifer uchaf o ail dai yng Nghymru.
- Mai yma yng Ngwynedd mae'r refeniw uchaf yn cael ei godi o Dreth Tir ar ail dai drwy Gymru gyfan, ond yn hytrach na dod yn ôl i ni, mae'r arian yn mynd i'r Llywodraeth yn ganolog ar hyn o bryd. Gan hynny, gobeithid y byddai amrywio'r dreth yn agor y drws i'r Cyngor gael siâr deg o'r refeniw sy'n deillio o Dreth Tir i helpu i lenwi'r bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**O ystyried**
- **Bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymgynghoriad ar amrywio Treth Trafodion Tir**
- **Y byddai amrywio'r dreth yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor daclo'r gyfradd y prynir ail dai yn effeithiol**
- **Y byddai amrywio'r dreth yn agor y drws i'r Cyngor hwn bwyso ar y Llywodraeth i roi ei siâr theg o'r refeniw sy'n deillio o dreth tir**

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o rôl i Wynedd fedru penderfynu ar amrywiaethau ar gyfer Treth Trafodion Tir.**

## 14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd – er gwybodaeth:-

(1) Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gwynfor Owen i Gyngor 9 Mai, 2024 ynglŷn ag amlder y trenau ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.

(2) Llythyr oddi wrth Lywodraeth y DU mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elwyn Edwards i Gyngor 3 Hydref, 2024 ynglŷn â dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 4.30yp.

**CADEIRYDD**